



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru

Adroddiad cynnydd terfynol

Ebrill 2019



Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru – Adroddiad cynnydd terfynol

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, cyrff llywodraethu ysgolion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, consortia rhanbarthol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd gan Gyngor y Gweithlu Addysg ac undebau athrawon ddiddordeb hefyd.

Trosolwg

Y ddogfen hon yw'r adroddiad cynnydd terfynol ar argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru, a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mehefin 2015.

Camau i'w cymryd

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad ar argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff llywodraethu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg
Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Yr Is-adran Cwricwlwm
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: EducationBusinessPlanningGovernance@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru (2015)

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth

Ym mis Ionawr 2015, comisiynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis AC, grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth o Wasanaethau Cerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru. Rhoddwyd y cylch gwaith i'r grŵp, a oedd yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol, consortia addysg, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ac ysgolion, adolygu systemau darparu cyfredol ledled Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer gwella i wasanaethau a oedd yn debygol o gael eu cytuno ar y cyd gan awdurdodau lleol.

Cyhoeddodd y grŵp gorchwyl a gorffen ei ganfyddiadau ym mis Gorffennaf 2015, gan gyflwyno 15 o argymhellion a oedd wedi eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a Chyngor Celfyddydau Cymru. Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd ei ymateb, gan dderbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad.

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r argymhellion a dderbyniwyd.

Byddwch yn sylwi o rywfaint o'r naratif yn yr adroddiad hwn bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar wasanaethau cerddoriaeth, yn enwedig trwy fwrw ymlaen â'r argymhellion gan ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i ariannu addysg cerddoriaeth a mynediad ati: *Taro'r Tant* sy'n cyflwyno 16 o argymhellion yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth o wasanaethau addysg ledled Cymru.

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11595/cr-ld11595-w.pdf>

Mewn ymateb i un o'r argymhellion yn adroddiad *Taro'r Tant* y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, cytunodd y Gweinidog Addysg i gyhoeddi'r diweddariad hwn ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen. Hwn fydd yr adroddiad diweddarau terfynol.

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru.

Adroddiad Diweddaru terfynol, Ionawr 2018

Gorchwyl Allweddol 1:

Ystyried Dulliau Amgen o Gyflenwi Gwasanaethau sy'n Gyson â'r Model
Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Argymhellion

Dylai awdurdodau lleol ddarparu manylion eu modelau darparu gwasanaeth
cyfredol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) erbyn mis Hydref 2015

Erbyn mis Medi 2015, dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â CLILC a
rhanddeiliaid allweddol, gomisiynu dogfen ganllaw tebyg i 'astudiaeth achos'
ar fodelau darparu presennol a modelau darparu posibl i'w hystyried gan
lywodraeth leol. Dylid cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a'i
darparu i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio i'r dyfodol.

Dylai awdurdodau lleol ystyried yr ystod o fodelau darparu, a dylai CLILC ddarparu'r
model a ffafrir gan bob ALI ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth i
Llywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2016.

***Adroddwyd gennym yn flaenorol ar y gwaith y mae CLILC wedi ei wneud
gyda'i phartneriaid awdurdod lleol a CAGAC i archwilio modelau posibl ar
gyfer darparu gwasanaethau.***

***Daeth CLILC i'r casgliad mai'r ffordd orau o reoli gwasanaethau cerddoriaeth
yw ar lefel leol i alluogi cymorth i gael ei deilwra i ddiwallu anghenion lleol
unigol.***

***Lluniodd CAGAC, mewn ymgynghoriad ag eraill, drosolwg o wasanaethau
cerddoriaeth yn y DU. Cwblhawyd llawer o waith a cheir dealltwriaeth
gynhwysfawr o'r ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru***

erbyn hyn. Nodwyd amrywiaeth o ddarpariaeth o wasanaethau ar draws awdurdodau lleol gan gynnwys darparwyr lleol, gwasanaethau ar y cyd rhwng awdurdodau rhanbarthol, a gwasanaethau cydweithredol mewn eraill. Mae CAGAC yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth wrth iddi newid i adlewyrchu angen lleol ac i ddarparu cyngor a chymorth i awdurdodau lleol.

Yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i addysg cerddoriaeth, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad, 'Taro'r Tant', a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ymateb i'r adroddiad ym mis Gorffennaf 2018, gan dderbyn 8 o'r 16 o argymhellion a derbyn 3 arall mewn egwyddor. O ganlyniad i rai o'r argymhellion hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith i lunio ymarfer dichonoldeb i asesu opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth yn y dyfodol ac ystyried cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth. Mae rhan o hyn yn ymhelaethu ar waith argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ac yn cynnig llwybr arall ar gyfer ystyried y ddarpariaeth o gerddoriaeth ledled Cymru i sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn gynaliadwy ac yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried dichonoldeb gwahanol fodelau darparu.

Tasg Allweddol 2:

Archwilio opsiynau ar gyfer polisïau codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth decach a mynediad i ddysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Argymhellion

Gan gydweithio â'u hawdurdodau lleol, dylai ysgolion a chyrrff llywodraethu fabwysiadu polisïau clir, teg a chyson ar gyfer codi tâl am wersi cerddoriaeth. Dylai'r polisïau gael lle amlwg yn nogfennau polisi cyhoeddedig yr ysgolion erbyn mis Medi 2016. Ar gyfer disgyblion sy'n wynebu tlodi, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio grantiau a'u hadnoddau cyllidebol eu hunain hyd yr eithaf i leihau anfantais.

Wrth ystyried modelau darparu newydd, dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau mwy o gysondeb yn eu hardal leol yng nghostau rhedeg y ddarpariaeth gwasanaeth, a sicrhau mwy o gysondeb o ran prisiau yn sgil hynny. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf, a dylai gynnwys adolygiad o delerau ac amodau staff y Gwasanaethau Cerddoriaeth, gyda golwg ar sicrhau amodau cyflogaeth teg, cynaliadwy a didwyll.

Rhoddodd yr adolygiad blwyddyn ddiweddariad ar y gwaith ar y cyd sy'n cael ei wneud ar y mater hwn. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn offeryn grymus i ysgolion gynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gael mynediad at y celfyddydau a phrofiadau diwylliannol efallai na fyddent wedi gallu cymryd rhan ynddynt fel arall. Yn 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru [ganllawiau](#) i ysgolion ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Fe'i gwnaed yn eglur yn y canllawiau hyn y gallai ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, ar sail achosion unigol, i helpu dysgwyr unigol o deuluoedd incwm isel gymryd rhan mewn mathau penodol o gelfyddyd, fel hyfforddiant offeryn cerddorol; cyn belled â'i fod yn ategu cyrhaeddiad academaidd yn fwy cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [pecyn hyfforddi](#) ar ddefnyddio gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Cyhoeddwyd hwn ar Dysgu Cymru ac mae'n amlygu sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi cyfoethogi diwylliannol. Mae hefyd yn cynnig strwythur a chymorth i weithwyr proffesiynol gynyddu eu hyder wrth gynllunio ymyriadau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Byddai angen i hyfforddiant fod yn rhan o raglen a gynlluniwyd sydd â'r nod o godi cyrhaeddiad ar draws y cwricwlwm â chanlyniadau wedi'u diffinio'n eglur.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant ychwanegol o £1.4 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi'r ddarpariaeth o gerddoriaeth yn 2018-19. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid fel y maent yn ystyried sy'n briodol ac yn unol ag anghenion lleol i ddarparu unrhyw un opsiwn, neu gyfuniad o opsiynau o gyfres o feini prawf. Un o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn yw sicrhau bod mynediad at ddarpariaeth o gerddoriaeth i'r disgyblion hynny sy'n derbyn pryddau ysgol am ddim trwy sefydlu cronfa briodol i'w defnyddio'n benodol ar gyfer gwersi, arholiadau, cyrsiau, ac adnoddau.

Opsiwn arall yw cefnogi cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion. Pan fo ffioedd am wersi wedi golygu bod myfyrwyr yn rhannu gwersi mewn grwpiau o feintiau amhriodol, a allai arwain at ddirywiad i gyrhaeddiad, gellid dyrannu'r cyllid i sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei hailgyflwyno.

Mae'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, yr ydym yn ei darparu mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyfanswm cyllid o £20 miliwn yn ystod y cyfnod 2015-2020, yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu dulliau addysgu creadigol, gan ddefnyddio'r Celfyddydau, gan gynnwys cerddoriaeth, i wella dysgu i bob disgybl, ar draws y cwricwlwm. Gall y rhaglen gynnig cyfleoedd i ddarparu profiadau cerddorol, i ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn opsiynau gyrfaol ym maes cerddoriaeth. Mae'r grantiau sydd ar gael o dan y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (Ewch i Weld a Cydweithio Creadigol), yn galluogi ysgolion, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd o fwy o amddifadedd, ddarparu gweithgareddau a phrofiadau cerddoriaeth i ddysgwyr, fel teithiau i gyngherddau neu fentrau addysg cerddorfa.

Cydnabyddir gan fod y ddarpariaeth o gerddoriaeth ledled Cymru yn cael ei gwneud trwy wahanol fodelau, bod telerau ac amodau staff cerddoriaeth yn amrywio ar draws Cymru. Mae'r amrywiaeth o wasanaethau a gomisiynir yn lleol yn golygu bod darparwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, mae rhai'n gyflogeion awdurdodau lleol ac mae rhai'n hunangyflogedig neu'n gweithio trwy gomisiynau elusennol; cydnabyddir hefyd y gallai staff gael eu cyflogi ar wahanol raddfeydd a/neu gyfraddau cyflog. Mae'r argymhelliad gan y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cyfeirio at adolygiad o delerau ac amodau staff gwasanaethau cerddoriaeth hefyd yn ymddangos fel argymhelliad yn adroddiad 'Taro'r Tant' y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yng Nghymru ym mis Tachwedd 2018 i drafod y mater ac annog awdurdodau lleol i adolygu telerau ac amodau staff gwasanaethau cerddoriaeth, pan fo'n briodol gwneud hynny.

Tasg Allweddol 3

Ystyried opsiynau ar gyfer cyflenwi/adnewyddu/prynu/trefniadau llogi offerynnau cerdd

Argymhellion

O fewn y deuddeg mis nesaf, dylai CLILC, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, gomisiynu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd (yn ôl categori, safon a chyflwr) er mwyn canfod bylchau, a gyda'r bwriad y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio i ailddosbarthu'r offerynnau presennol er budd pawb.

O fewn y chwe mis nesaf, dylai Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â rhanddeiliaid eraill, archwilio sut y gall cynllun prynu offeryn unigol 'Take it Away' ychwanegu at gynlluniau cyfredol ar gyfer prynu a llogi offerynnau cerdd.

Y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y chwe mis nesaf i ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu offerynnau craidd ar y cyd.

Dylai gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol gydweithio dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu cynlluniau rhannu/trwsio/cynnal gyda'r nod o ffurfio darpariaeth gyson ledled Cymru, a dylent hefyd weithio gyda'i gilydd, a gyda rhanddeiliaid eraill i gynnal diwrnod amnest offerynnau cenedlaethol.

Yn dilyn ymlaen o'r diweddariad a ddarparwyd yn 2017, mae CAGAC wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried dichonoldeb cronfa ddata genedlaethol. Mae amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth a gwahaniaethau o ran angen wedi arwain at wahanol fodelau. Caiff offerynnau eu rhannu ar draws rhanbarthau pan fo'n bosibl, ar sail

angen. Mae pob awdurdod lleol yn cynnal ei archwiliad ei hun. Mae rhwydweithio presennol yn effeithiol o ran sicrhau bod offerynnau prin ac arbenigol yn cael eu rhannu. Adroddir na fyddai ffurfioli trefniadau yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol ac y byddai'n gofyn am gyllid gweinyddol ychwanegol.

Gall awdurdodau lleol hysbysu teuluoedd am ddarparwyr offerynnau cerddorol lle mae cynlluniau 'Take it Away' ar gyfer prynu offerynnau cerddorol heb log ar gael. Mae cynlluniau hefyd ar gael i offerynnau cludadwy gael eu prynu trwy awdurdodau lleol am gyfradd ddi-dreth.

Trefnwyd dau amnest offerynnau cerddorol gan Lywodraeth Cymru yn 2017 a 2018, gan alluogi'r cyhoedd i roi offerynnau a ddsbarthwyd wedyn i ysgolion a cherddorfeydd ledled Cymru, gan gynyddu'r cyfleoedd i'n pobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol.

Rhodddwyd dros 60 o offerynnau yn y treial cychwynnol. Cytunodd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gefnogi ein hamnest a phrofwyd ac atgyweiriwyd yr offerynnau gan eu myfyrwyr. Casglwyd 80 o offerynnau eraill drwy'r fenter amnest ehangach ddilynol yn cynnwys awdurdodau lleol.

I gefnogi'r fenter hon ymhellach, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £10,000 ym mis Mawrth 2017 i bob awdurdod lleol yng Nghymru brynu offerynnau newydd.

Mae'r cyllid o £1.4 miliwn a ddyrannwyd yn 2018-19 yn cynnig yr opsiwn i awdurdodau lleol brynu mwy o offerynnau cerddorol pan fo'u hangen.

Hefyd, dyfarnwyd £100,000 i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru yn 2018-19 i gynorthwyo'r gwaith pwysig y maent yn ei wneud a chynyddu cyfleoedd i'n cerddorion ifanc.

Tasg Allweddol 4:

Ystyried y potensial am fwy o waith partneriaeth

Argymhellion

Dylai Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru adolygu cyfansoddiad y grŵp Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC) o fewn y chwe mis nesaf, gan ddiwygio'r cylch gorchwyl i adlewyrchu blaenoriaethau strategol sy'n dod i'r amlwg.

Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru o fewn y chwe mis nesaf ac archwilio'r potensial am fwy o waith partneriaeth.

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru wedi adolygu cyfansoddiad CAGAC, a darparwyd crynodeb o'r CAGAC a oedd newydd gael ei phenodi yn adroddiad cynnydd blwyddyn ym mis Ebrill 2017. Mae CAGAC yn parhau i weithio ar y cyd ar draws rhanddeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol o ran gweithgareddau cerddoriaeth. Gwahoddwyd y grwpiau hyn yn ddiweddar i gymryd rhan yn yr ymarfer dichonoldeb sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i addysg cerddoriaeth.

Tasg Allweddol 5:

Datblygu cyfres o ddisgwyliadau gofynnol, a strwythurau a chylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru

Argymhellion

Gan ddechrau ar unwaith, dylai awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion a chyrrff llywodraethu dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cylch gorchwyl hwn

Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, a'r cyfyngiadau ar hynny, er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio sgiliau a doniau cerddorol i wireddu eu posibiliadau. Wrth ymchwilio, dylid ystyried y model a'r adnoddau ar gyfer gwaddol o'r fath, gan gynnwys y posibiliad o gyflwyno ardoll wirfoddol ar docynnau, a dylai'r Gweinidogion dderbyn adroddiad ar ddichonoldeb cychwynnol o fewn chwe mis.

Adroddwyd nifer o heriau yn yr adroddiad diweddar diwethaf ynghylch sicrhau gwasanaethau cyson a chydweithredol ar draws awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar anawsterau ariannu yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle ceir rhwystrau ychwanegol oherwydd galw a demograffeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i hybu'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru (atodiad A). Mae'r cylch gorchwyl yn darparu datganiad eglur o ddisgwyliadau ar gyfer gwersi cerddoriaeth cyson, ansawdd uchel a fforddiadwy ym mhob ysgol. Mae CAGAC yn hybu ac yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar weithrediad y cylch gorchwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth awdurdodau lleol yn gweithio tuag at fodloni'r amcanion a nodir yn y cylch gorchwyl er bod problemau ariannu wedi achosi rhai anawsterau mewn llawer o ardaloedd. Bwriad £1.4 miliwn ychwanegol o gyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn 2018-19 yw cynorthwyo ffyrdd arloesol a chreadigol o wella darpariaeth cerddoriaeth ymhellach.

Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb, cytunodd Llywodraeth Cymru i argymhellion i sefydlu cronfa waddol genedlaethol yng Nghymru. Yn sgil hynny, sefydlwyd 'Anthem – Music Fund Wales-Cronfa Gerdd Cymru', wedi ei ariannu gan fuddsoddiad o £1 filiwn gan Lywodraeth Cymru. Penodwyd Arnout van der Veer yn ddiweddar fel Cadeirydd cyntaf Anthem.

Mae Anthem wrthi'n sefydlu ei fwrdd a nodi cyfres o Lysgenhadon Cerddoriaeth erbyn hyn, ac wedi hynny bydd y broses o ddatblygu strategaeth ariannu gadarn a chyfalafu'r gronfa yn cychwyn. Rhagwelir y bydd cyllid ar gael o'r cynllun hwn o 2020/21. Nod y gronfa hon yw gwneud cyfleoedd cerddorol yn fwy hygyrch i'r holl bobl ifanc 3-25, i ddatblygu cyfleoedd cerddorol ym mhob genre ac ym mhob cymuned, i nodi a meithrin talent a gallu ac i gefnogi llwybrau gyrfaol ym maes cerddoriaeth a'r diwydiant cerddoriaeth.

Tasg Allweddol 6

Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth i'r holl awdurdodau lleol gytuno arno.

Argymhellion

Gan ddechrau ar unwaith, lle bo'n briodol, dylai awdurdodau lleol fynd ati ar y cyd i weithio ac adeiladu modelau gwasanaeth, gan anelu i sicrhau eu bod yn esgor ar ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n cynnig gwerth am arian. Dylid defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau i adlewyrchu modelau cyflenwi/gwasanaeth, arferion gwaith a threfniadau partneriaeth cyfredol. Yn ogystal â hyn, dylid rhannu memoranda o'r fath ag awdurdodau lleol eraill fel enghreifftiau o gydweithio ac arfer da.

Yn dilyn ein hadroddiad diwethaf, mae CAGAC wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac mae nifer o drefniadau cydweithredol yn parhau rhwng awdurdodau lleol. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn disgrifio ymrwymiad awdurdodau lleol i barhau i gynnal a gwella'r ddarpariaeth o

wasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion dysgwyr ac i weithio ar y cyd ag awdurdodau eraill i ystyried dulliau darparu amgen ac, yn ôl yr angen, ar gyd-adeiladu modelau darparu gwasanaeth newydd, er mwyn creu strwythurau cadarn ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae gan CAGAC drosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaethau rhanbarthol ar draws awdurdodau lleol a'r atebion lleol sy'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion lleol.

Datblygwyd modelau amgen mewn rhai ardaloedd, wrth i awdurdodau lleol gydweithio i rannu darpariaeth i sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth i ddysgwyr. Mae CAGAG yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn trwy ystyried sut y gall awdurdodau lleol weithio'n agosach gyda'i gilydd i sicrhau bod gan blant ledled Cymru fynediad at addysg cerddoriaeth gyfartal a hygyrch. Ceir pwysau a adroddir yn y dyfodol, gyda gwahanol fewnbwn ac ymrwymiad i drefniadau consortia. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda'i gilydd i nodi a datblygu trefniadau i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad cyfartal at wasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn rhan o ymarfer ehangach i ystyried dichonoldeb cynllun cerddoriaeth cenedlaethol ar gyfer addysg yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth o wasanaethau rhanbarthol, a rhwystrau sy'n atal awdurdodau lleol rhag gweithio ar y cyd ar draws rhanbarthau a datblygu mynediad mwy cyfartal at wasanaethau addysg cerddoriaeth i bob disgybl yng Nghymru. Bydd yr ymarfer hwn hefyd yn ystyried modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cerddoriaeth.

Atodiad A

Y cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru

Dylai gwasanaethau cerddoriaeth gynnig darpariaeth i bob ysgol yn eu hardal fel bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael cyfle i ddysgu chwarae a chanu. Gyda chefnogaeth gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol, mae gan ysgolion le creiddiol yn narpariaeth gwersi offerynnol a lleisiol.

O ran gwersi offerynnol a lleisiol, disgwylir i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol:

- fodloni anghenion ysgolion o ran ystod ac ansawdd y gwasanaeth;
- bodloni'r angen ymhlith y dysgwyr am wersi grŵp/unigol fforddiadwy o ansawdd uchel ar ystod o offerynnau, wedi'u darparu gan staff hyfforddedig;

- cynorthwyo adrannau cerddoriaeth ysgolion i gynnig darpariaeth allgyrsiol o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfleoedd i berfformio mewn ensemble, yn ogystal â chyfleoedd eraill i berfformio.
- cynnig cyfleoedd i symud ymlaen, mynediad at gyngor a chefnogaeth i ddysgwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau;
- cefnogi dysgwyr wrth baratoi am arholiadau cerddoriaeth;
- gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu polisiau teg a chyson ar gyfer codi tâl;
- rhoi lle canolog i waith partneriaeth wrth weithredu, a mynd ati'n weithredol i ddatblygu partneriaethau newydd;
- cynnig darpariaeth gyson ar draws rhanbarth, sy'n cyd-ffinio â rhanbarthau'r consortia addysg rhanbarthol;
- sefydlu systemau sicrhau ansawdd, ynghyd â gofyniad i ddatblygu cyflog ac amodau cyson;
- darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod am y newidiadau diweddaraf o ran y polisi a'r arfer cyfredol ym maes addysg.
- gweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau'r opsiynau mwyaf effeithiol o ran cost wrth gyflenwi offerynnau cerdd;
- cydweithio ar draws ac oddi mewn i ranbarthau i rannu adnoddau cerddoriaeth wedi'u hargraffu; a
- lle bo'n berthnasol, cynnwys y defnydd o dechnoleg ddigidol i wella canlyniadau gwersi.

Yn ogystal â hyn, ac yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol yn y dyfodol, gellid disgwyl i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol:

- Gynorthwyo athrawon dosbarth cyffredinol ac ymarferwyr anarbenigol i gyflenwi gofynion y cwricwlwm cenedlaethol i bob dysgwr, gan roi ystyriaeth dda i arfer gorau a chanfyddiadau ymchwil er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'u sgiliau a'u harbenigedd eu hunain;
- Cynorthwyo athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn i ennyn hyder wrth gyflwyno gwersi cerddoriaeth i'w dosbarthiadau;
- Cynorthwyo ysgolion i hyrwyddo canu fel ysgol gyfan a pherfformiadau cerddorol o safon.